

ARCHIFAU MORGANNWG

~COFNODION CYMORTH Y TLODION ~

Cafodd cofnodion cymorth y tlodion eu creu oherwydd yr angen i ofalu am y tlawd. Cafodd y cofnodion sy'n ymwneud â chymorth y tlodion eu cynhyrchu ar wahanol adegau gan wahanol gyrff; y rhai a grëwyd o dan hen system deddf y tlodion, y rhai a grëwyd gan system newydd deddf y tlodion a'r rhai a grëwyd gan olynwyr deddf y tlodion.

1. Beth oedd Hen Ddeddf y Tlodion?

O ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg hyd at 1834, y plwyf oedd yn gyfrifol am ddarparu cymorth i'r tlodion. Roedd plwyfolion yn pennu treth cymorth y tlodion ac yn penodi goruchwylwyr di-dâl i gasglu a dosbarthu'r arian. Roedd cymorth y tlodion wedi'i gyfyngu i'r rhai oedd wedi 'anheddu' yn y plwyf, ac fe ellid anfon y rhai na allai hawlio anheddiad yn ôl i'w plwyf gwreiddiol. Erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd newidiadau cymdeithasol ac economaidd yn golygu bod y system yn anoddach i'w gweinyddu. Sefydlwyd Comisiwn Brenhinol i ymchwilio i'r broblem ym 1832 a phasiwyd Deddf Diwygio Cyfraith y Tlodion ym 1834.

Cofnodion Hen Ddeddf y Tlodion

Mae gan yr Archifdy nifer o gofnodion sy'n ymwneud â gweinyddu cymorth y tlodion, gan gynnwys llyfrau cofnodion festri, llyfrau goruchwylwyr a dogfennau eraill ar gyfer gwahanol blwyfi ym Morgannwg. Gellir gweld manylion y cofnodion yng nghatalogau 'Plwyfi Sifil' a 'Phlwyfi Eglwysig'.

Llyfrau Cofnodion Festri, 1759-1925

Cynhelid cyfarfodydd festri o bryd i'w gilydd gyda threthdalwyr mwy sylweddol yn y plwyf yn eu mynychu. Gellir gweld manylion y materion a drafodwyd yn y llyfrau cofnodion. Mae llyfrau wedi goroesi ar gyfer ychydig o blwyfi Morgannwg.

Trethi a Llyfrau Cyfrifon Goruchwylwyr, 1637-1928

Roedd goruchwylwyr y tlodion yn gyfrifol am gasglu trethi tlodion a dosbarthu'r cymorth. Mae'r cyfrifon a gedwid ganddynt yn dangos yr holl daliadau a wnaethant, i unigolion o ran cymorth y tlodion, a'u treuliau, er enghraifft wrth gael gwared ar tlodion o'r plwyf o dan ddeddfau anheddu. Mae enwau unigolion sy'n cael cymorth yn cael eu rhestru fel arfer hefyd.

Cofnodion Llysoedd Chwarter Morgannwg

Roedd achosion Deddf y Tlodion yn dod gerbron y Llysoedd Chwarter yn aml, er enghraifft achosion o dan ddeddfau anheddu a chrwydraeth, gorchmynion tadogaeth, ac apeliadau yn erbyn asesu treth y tlodion. Gall achosion fod wedi'u crybwyll yn y cofnodion canlynol:

Rholiau Llysoedd Chwarter QSR
Cofnodion Llysoedd Chwarter QSM

Mae ychydig o ddogfennau cyfraith y tlodion eraill wedi goroesi hefyd:

Papurau anheddu, 1685-1808. Er mwyn hawlio cymorth roedd yn rhaid i dlotyn fod wedi 'anheddu' yn y plwyf ac roedd yn rhaid iddo sefyll prawf anheddu. Os na allai hawlio anheddiad, gallai naill ai gael ei symud i'w blwyf gwreiddiol neu gellid codi tâl ar y plwyf hwnnw am y cymorth.

Gorchmynion i symud, 1743-1842. Roedd y rhain yn cael eu cymryd yn erbyn tlodion nad oedd yn gymwys i gael cymorth mewn plwyf arbennig, o dan reolau anheddu. O ganlyniad i'r gorchmynion hyn gallai tlodion cael eu symud i'r plwyf yr oeddynt yn hanu ohono'n wreiddiol.

Bondiau Barstardiaeth a gorchmynion tadogaeth, 1742-1801. Byddai tad plentyn anghyfreithlon yn cael ei annog gan oruchwylwyr a wardeiniaid yr eglwys i ymrwymo i fond barstardiaeth i gynnal y plentyn, er mwyn sicrhau na fyddai'r plwyf yn dod yn gyfrifol am y plentyn. Os byddai'n gwrthod gwneud hynny, byddai'n rhaid cael gorchmyn tadogaeth gan y Llysoedd Chwarter, a fyddai'n gorfodi'r tad i dalu.

2. Beth oedd Deddf Newydd y Tlodion?

O dan Ddeddf 1834, roedd plwyfi i gael eu grwpio gyda'i gilydd yn Undebau Deddf y Tlodion. Roedd trethi tlodion yn dal i gael eu casglu gan y plwyf, ond roedd Bwrdd y Gwarcheidwaid wedi'i ethol ar gyfer pob undeb i fod yn gyfrifol am drefnu cymorth y tlodion ac adeiladu a gweithredu tlotai. Nid oedd cymorth ar gael bellach i dlodion abl a oedd yn byw y tu allan i'r tloty (Cymorth Allanol). Roedd yr amodau yn y tloty yn llym yn fwiadol, er mwyn rhwystro pobl rhan mynd yno oni bai bod yn wirioneddol raid iddynt.

Yn ogystal â'r tlotai roedd Bwrdd y Gwarcheidwaid yn gyfrifol am Ysgolion Diwydiannol ac yn nes ymlaen am fythynnod i blant, ysbytai i bobl wael a chartrefi i'r henoed.

Roedd tri Undeb Deddf y Tlodion yn gyfrifol am gymorth y tlodion yn rhan ddwyreiniol Morgannwg ym 1836: Undebau Merthyr Tudful, Caerdydd, a Phen-y-bont ar Ogwr a'r Bont-faen. Ym 1863, crëwyd Undeb Pontypridd o blwyfi a oedd yn Undeb Caerdydd ac Undeb Merthyr Tudful cyn hynny.

Cofnodion Deddf Newydd y Tlodion

	Pen-y-bont ar Ogwr a'r Bont-faen (U/B)	Undeb Caerdydd (U/C)	Undeb Merthyr (U/MT)	Undeb Pontypridd (U/PP)
Cofnodion Tlotai	1900-1950	1846-1847 (1 volume)	1857-1940	1897-1948
Cartrefi Plant	1879-1955	1905-1948	1877-1970	1892-1955
Cymorth Allanol	1924-1925	1874, 1905		1930
Cofnodion Gweithwyr Cyflogedig	1925-1932	1868-1957	1886-1930	1885-1927

Llyfrau cofnodion

Mae'r rhain yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd Bwrdd y Gwarcheidwaid a'i is-bwyllgorau. Gall

manyllion achosion unigol gael eu cynnwys yn ogystal â gwybodaeth weinyddol. Mae llyfrau cofnodion ar gael ar gyfer yr holl undebau o 1836 (1863 ar gyfer Pontypridd) tan 1930.

Cofnodion gweinyddol

Mae nifer o gofnodion gweinyddol yn cael eu cadw yn y casgliad, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â thlotai undebau, ysgolion diwydiannol ac ysbytai, ac yn cynnwys gwybodaeth am unigolion gafodd eu derbyn i'r sefydliadau hyn. Maent yn cynnwys:

- cofrestri credo
- cofrestri derbyn a rhyddhau
- cofrestri genedigaethau a marwolaethau
- cofrestri gwallgofiaid
- rhestrï o dlodion, sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y rhai sy'n derbyn cymorth allanol

Cofnodion Eraill

Ymysg cofnodion eraill undeb deddf y tlodion sy'n cael eu cadw mae:

Cyfnodolion a llyfrau adroddiadau meistri sy'n rhoi manyllion digwyddiadau o ddydd i ddydd mewn sefydliadau deddf y tlodion

Llyfrau dydd, llyfrau cyfrifon a stoc a rhestrï eiddo, sy'n rhoi manyllion eitemau a ddefnyddiwyd ac a brynwyd

Blwyddlyfrau, sy'n rhoi manyllion yr holl sefydliadau undeb (gan gynnwys cynlluniau a hanes cryno, rheoliadau a manyllion deietegol) rhestrï o swyddogion Undebau (gan gynnwys incwm) a manyllion trefniadau talu cymorth allanol yn ogystal â gwybodaeth am Fwrdd y Gwarcheidwaid Llyfrau llythyrau, yn cynnwys gohebiaeth a cheisiadau am waith

Hysbysiadau a gafodd eu harddangos mewn sefydliadau

Cofnodion claf dai ac ysbytai

Cofnodion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Byrddau nad ydynt yn ymwneud â deddf y tlodion, megis brechu plant ysgol

Profion Anheddu

Ble ellir dod o hyd o gofnodion?

Mae'r rhan fwyaf o gofnodion yn cael eu cadw gyda'i gilydd yng nghatalog 'Undebau Deddf y Tlodion'. Fodd bynnag, mae cofnodion ychwanegol i'w gweld mewn casgliadau eraill:

Gellir gweld papurau anheddu Undeb Pen-y-bont ar Ogwr a'r Bont-faen yn ffeil llys y Sesiwn Fach (PSNEW12)

Gellir gweld cofnodion Cartrefi Plant Caerdydd yn ffeil y Gwasanaethau Cymdeithasol (SD/SC and BCPAC)

Mae cofnodion ar gyfer Ysbyty a Chartrefi Trelái i'w gweld o dan y cyfeirnod (DHE4)

3. Wedi Undebau Deddf y Tlodion

Yn sgil camau fel cyflwyno pensiynau Henoed ym 1908 a mathau o yswiriant diweithdra ac iechyd ym 1911 nid oedd gan Fyrdau y Gwarcheidwaid gymaint o gyfrifoldebau. Daethant i ben ym mis Ebrill 1930, pan drosglwyddwyd eu cyfrifoldebau i Lywodraeth Leol. Cafodd y rhain eu cyflawni yn y lle cyntaf gan Bwyllgorau Cymorth Cyhoeddus ac yn nes ymlaen gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cofnodion Pwyllgor Cymorth Cyhoeddus (PAC)

Mae gan yr Archifdy gofnodion PAC Cyngor Sir Morgannwg, (GC/PA) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerdydd (BC/PAC). Mae cofnodion Pwyllgor Cymorth Cyhoeddus Cyngor Sir Morgannwg yn cynnwys llyfrau llythyrau, gohebiaeth, papurau achos a chofnodion ar gyfer y

cyfnod 1930-1958. Ac ar gyfer Caerdydd, llyfrau cofnodion, cofrestru a gohebiaeth yn dyddio o 1913-1978.

Cofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol

De Morgannwg (SG/SD) – Mae dogfennau'n cwmpasu'r cyfnod 1891-1981, ac yn cynnwys cofrestrri derbyn i gartrefi plant a gadael cartrefi plant, gohebiaeth a chofrestrri a dogfennau gweinyddol o gartrefi'r henoed.

Morgannwg Ganol (MG/SD) – Cofrestrri cartrefi plant, 1938-1984

Cyngor Sir Morgannwg (GC/S) – yn cynnwys dogfennau o'r 1930au i'r 1960au, gan gynnwys papurau achos, ffurflenni pobl sy'n derbyn budd-daliadau a rhai llyfrau a chofrestrri derbyn.

Cau Cofnodion Deddf y Tlodion

Oherwydd eu natur, mae cofnodion deddf y tlodion yn cynnwys manylion cyfrinachol yr unigolion a enwyd. Er mwyn datgelu cyn lleied o fanylion â phosibl ynglŷn â phobl a all fod dal yn fyw, mae holl gofnodion ysbytai a phapurau achos plant, tlotai a bythynnod yn cael eu cau am 100 mlynedd o ddyddiad y cofnod olaf.

Archebu dogfennau

Noder bod rhai o'r dogfennau'n cael eu cadw mewn ystordy allanol. Mae angen wythnos o rybudd er mwyn dod â'r rheiny i'r Archifdy.

Llyfrau Defnyddiol

Mae'r llyfrau a'r erthyglau canlynol yn ymdrin â chymorth y tlodion ym Morgannwg ac ar gael yn ein llyfrgell. Gellir prynu'r rhai sydd wedi'u nodi â seren o'r Archifdy:

* Raymond K.J. Grant, *On the Parish. An Illustrated Source Book on the Care of the Poor under the Poor Law* (1988)

* Tydfil Thomas, *Poor Relief in Merthyr Tydfil in Victorian Times* (1992)

Edna Adams, *Indoor and Outdoor Relief for the Poor of Cardiff, 1926-1936* Traethawd ymchwil heb ei gyhoeddi ar gyfer diploma mewn Hanes Lleol (1993)

Ian Dewar, 'George Clive and the Establishment of the New Poor Law in Glamorgan' yn *Morgannwg Cyf. 11* (1967)

Tydfil Davies Jones, 'Poor Law Administration in Merthyr Tydfil Union, 1834-1894' yn *Morgannwg Cyf 8* (1964)

A.C. Davies, 'The Old Poor Law in an Industrialising Parish, Aberdare 1818-1836' yn *The Welsh History Review Cyf 8, Rhif 3* (1977)

J. H. Thomas a W. E. Wilkins, *The Bridgend- Cowbridge Union. Workhouse and Guardians* (1995)

Gwefan Ddefnyddiol: www.workhouses.org.uk

